

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 11eg o Hydref 2023 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, John P Roberts, Idris Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, Lynne Mccrickett a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson.** Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Arfon Hughes a Geraint Morgans.

Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd** ar yr 30ain o Awst ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis.

4. **Materion yn codi**

- a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd am y materion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Gyda maes parcio Neuadd Aberangell, dywedwyd nad oedd disgwyl i'r Cyngor wneud gwaith yno, ond yn hytrach gweithredu i rwystro dwr ddod i'r ffordd. Byddai rhaid aros tan yr ymweliad safle oedd wedi ei addo yn y llythyr. Yng nghyswllt y pryderon am geir yn mynd yn gyflym tua Lawnt y Plas, a'r mesurydd traffig oedd wedi bod mewn lle, nid oedd y cyflymder yn peri pryder iddynt. Gwelwyd fod rhaid parhau i bwysu am 'speed bumps' yno.
- b) **Byrddau gwybodaeth/dehongli** - adroddodd y Cyng Catrin Johnson fod y cyfan wedi ei gwblhau, a diolchwyd yn fawr iawn.
- c) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd nad oedd unrhyw ddatblygiadau ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y Clerc wedi cael gair yn gyffredinol gyda Tegid y contractor ynglyn a torri gwair y fynwent.

. d) **Torri gwair mynwent Dinas o 2024 ymlaen** – nodwyd yr ymateb i'r hysbyseb am contractor or newydd yn dilyn rhoi yr hysbyseb yn y Blewyn Glas a Llygad y Dydd. Roedd cais am gael atebion erbyn y 10fed o Hydref. Adroddwyd mai un ymateb a gafwyd, sef gan Andrew Johnson. Yn rhan yma'r cyfarfod, cafwyd datganiad o ddidordeb gan Cyng Catrin Johnson, a gadawodd y cyfarfod tra roedd hyn yn cael ei drafod.

Roedd yr amcangyfrif gan Andrew Johnson am swm o £1,100, a thrafodwyd hyn yng nghyswllt y prisiau eraill a dalwyd am dorri gwair. Penderfynwyd, ar gynnig Sion A Roberts a'i eilio gan John P Roberts, y dylid cael amcangyfrif y pris y byddai Tegid yn ei godi yn 2024 am dorri gwair mynwentydd Mallwyd a Llanymawddwy – cyn symud ymlaen efo hyn. Byddai rhaid trafod hyn hefyd yng nghyd destun penderfyniad lefel y praesept ar gyfer 2024-25.

- d) **Toiledau Dinas Mawddwy** – nid oedd ymateb pellach gan Amanda Murray o Gyngor Gwynedd, a chyfeiriodd hefyd at luniau a ddanfonwyd gan Cyng Arfon Hughes yn dangos y gwaith oedd ei angen ar y to. Byddai y Clerc yn ysgrifennu ymhellach.
- e) **Gwaith gan ADRA yn Lawnt y Plas** – roedd angen atgoffa Adra am y mater. Addawodd Cyng Idris Jones ddanfon lluniau i ddangos yr hyn oedd angen ei wneud.
- f) **Rheolau Sefydlog Cynghorau Cymuned** – nodwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi mynd drwy y ddogfen fel yr addawyd. Roeddynt wedyn wedi eu danfon allan ymlaenllaw i'r Cynghorwyr, ac roedd angen yn awr eu cymeradwyo. Ar gynnig J P Roberts a'l eilio gan Lynne Mccrickett roedd pawb yn unfrydol y dylid eu mabwysiadu a'u rhoi ar y wefan.
- g) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – adroddwyd y cyrsiau oedd ar gael, a byddai rhaid trafod hyn ymhellach.
- h) **Safle hysbysu llwybrau Cwmni Nod Glas.** – adroddodd y Clerc nad oedd ymateb gan Arfon Hughes fel Ysgrifennydd y Cwmni, a byddai rhaid trafod eto.
- i) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, darllenwyd ymateb y Parc Cenedlaethol y byddent yn ymweld a'r safle. Mynegwyd siom am yr oedi, ac roedd yn ymddangos nad oedd y Parc Cenedlaethol yn gyson wrth ymdrin a materion fel hyn. Byddai rhaid trafod y tro nesaf.
- j) **Trefniadau ar gyfer pobl sy'n symud i'r gymuned** – ystyriwyd hyn yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, a phenderfynwyd, ar gynnig John P Roberts a'l eilio gan Sion A Roberts a gyda chefnogaeth unfrydol, na ddylai y Cyngor Cymuned fod yn glwm wrth hyn. Ni ddylid felly gynnwys ar yr agenda eto. Nodwyd fod Arfon Hughes wedi cynnig arwain ar hyn, ond dywedwyd na ddylai hyn fod yn enw y Cyngor Cymuned.

5. Materion Cynllunio

Roedd un cais wedi ei ddisbarthu ers y cyfarfod diwethaf, sef;

NP5/74/510 – gosod twr latis 30 medr o uchder sy'n cynnal 3 antena, 2 dysgl 0.6m, 2 cwpwrdd offer, 1 caban mesura datblygiad ategol iddo gan gynnwys generadur a chompownd sydd wedi ei amgau gan ffensys 1.1m o uchder – **Tir Pentrewern, Dinas Mawddwy.**

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn dweud dim gwrthwynebiad, ond roedd cwestiwn wedi ei ofyn (fel rhan o'r ymateb) a oedd hyn yn barhaol, ac os felly a oedd cyflenwad trydan.

6. Materion Cyllid.

- a) Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (11.10.23), sef Cyfri Cyfredol £8051.15, Cyfri Claddedigaeth £909.87 Cyfri Cadw £774.10.

- b) Roedd £472.00 i law gan Glyn Rees a'i Fab am gladdu llwch diweddar Avona Mary Williams, a chytunwyd ar gost agor y bedd, sef £65.
- c) Nodwyd e- bost gan Archwilio Cymru yn nodi cwblhau gwaith cyfrifon Cyngor Mawddwy am 2022-23. Roedd hysbysiad wedi ei roi ar y wefan ac ar hysbysfwrdd y Neuadd yn Dinas. Nodwyd rhai man faterion l'w cwblhau erbyn y flwyddyn nesaf.
- d) Cytunwyd ar gydnabyddiaeth ail chwarter y Clerc, sef £434.95 a HMRC £108.80.
- e) Roedd cais am gymorth gan Ambiwllans Awyr Cymru, ac ar gynnig Cyng John P Roberts a'l eilio gan Cyng Berwyn Harding a chefnogaeth unfrydol, cytunwyd ar gyfraniad o £200.

7. Gohebiaeth.

- a) Nodwyd gopi o grynodedb penderfyniadau y Cyngor sydd yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor Cymuned yn union ar ol y cyfarfodydd. Roedd hyn yn dilyn cyswllt gan aelod o'r cyhoedd ers y cyfarfod diwethaf, ac yn ganllaw yr oedd rhaid ei ddilyn bellach.
- b) Nodwyd Arolwg gweithrediadau Eco-dyfi a oedd wedi ei ddanfôn i'r Cynghrowyr.
- c) Adroddwyd am gyfarfod Un Llais Cymru Meirionnydd ar y 4ydd Hydref gan Cyng Catrin Johnson. Byddai'r Clerc yn dosbarthu cyflwyniadau a gafwyd.
- d) Hyfforddiant Cynghorwyr – Nodwyd fanylion cynlluniau hyfforddiant i Gynghorwyr Cymuned gan Un Llais Cymru.
- e) Nodwyd holiadur gan Gyngor Gwynedd ynglyn a ffiniau cymunedau, a gan Ifan Llywelyn Jones ar ran 'Hunaniaith' a oedd yn symud o reolaeth Cyngor Gwynedd ac a fyddai yn cael eu hadnabod i'r dyfodol fel 'Menter iaith Gwynedd'. Aethpwyd drwy'r holiaduron, a byddai'r Clerc yn eu cwblhau.
- f) Nodwyd e-bost gan Huw Antur Edwards a oedd wedi ei benodi fel Swyddog Cefnogi Cymunedau i Gyngor Gwynedd, ac am wybodaeth grantiau Cynllun Bwyd Cist Gwynedd a gwella amgylchedd Gwynedd.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Cyfeiriwyd at e-bost gan Cyng Arfon Hughes ynghyd a llun mainc ar Rhiw Landrin angen ei thrwsio. Dywedodd Cyng Idris Jones y byddai yn gwneud hyn a diolchwyd yn fawr iawn iddo.
- b) Roedd cwynion fod ceir yn parhau i fynd yn gyflym drwy Minllyn. Nodwyd cyflymder 20mya yno rwan, gyda gobaith y byddai'e sefyllfa yn gwella.
- c) Roedd Himalayan Balsam yn broblem ar yr A458 ger Groeslwyd, ac angen cyfeirio hyn at Adran Cefnfyrrdd.
- d) Adroddodd Cyng John P Roberts am fwllch yng nghyllideb Cyngor Gwynedd, a chynnydd cyflogau a chwyddiant a oedd yn effeithio yn fawr ar y sefyllfa. Roedd yna chwilio am syniadau ar sut i dorri lawr ar y costau.
- e) Adroddwyd fod bwriad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i dorri coed ar Foel Dinas.
- f) Roedd yna gwynion yn parhau am feddygfa Machynlleth, ac roedd unigolyn o'r Bwrdd lechyd wedi ymweld a Chyngor Cymuned Glantwymyn. Roedd yn

bwysig fod pawb yn ceisio cael engreiffiau pendant o'r sefyllfa, a gwelwyd y dylid trafod tro nesaf. Hefyd gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chlerc Glantwymyn i ddweud ein bod yn awyddus i gefnogi.

- g) Roedd cwyn fod grid gwartheg ger Aberdwynant, Aberangell yn cadw cryn swm wrth i gerbydau deithio trosto.
- h) Diolchwyd i Cyng John P Jones am dorri gwair Comin Dolybont.
- i) Roedd dwr yn rhedeg i lawr Rhiw Landrin, gan fod ffosydd ochr y ffordd wedi cau.
- j) Roedd angen torri coed ar nifer o ffyrdd cyhoeddus yn Aberangell, gan gynnwys ffordd am Gartheiniog (ffordd Hendre Ddu) ac i gyfeiriad Tymawr.
- k) Roedd coed mawr oddiar yr A470 uwchlaw Dinas Mawddwy yn achosi pryder mawr, gan fod perygl iddynt gwympo ar dai cyfagos. Roedd angen cyfeirio hyn at yr Adran Cefnffyrdd unwaith eto.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD ABERANGELL NOS FERCHER
29AIN Tachwedd 2023 , 7.30 y.h.**